OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 56

# Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016

## RHAN 1

### Rhagarweiniol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Mawrth 2016.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan wneir cais neu pan fwriedir gwneud cais i Weinidogion Cymru o dan adran 62D o Ddeddf 1990 (datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: ceisiadau sydd i'w gwneud i Weinidogion Cymru)(**1**).

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "asesydd" ("*assessor*") yw person a benodir i eistedd gyda pherson penodedig mewn gwrandawiad neu ymchwiliad neu wrandawiad neu ymchwiliad a ailagorwyd, i gynorthwyo'r person penodedig;

ystyr "awdurdod cynllunio lleol" ("*local planning authority*") yw'r awdurdod cynllunio lleol y byddid, oni bai am adran 62D o Ddeddf 1990, wedi gwneud cais iddo am ganiatâd cynllunio;

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "electronic communication" yn adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau Electronig 2000(**2**);

ystyr "cyfnod sylwadau" ("*representation period*") yw'r cyfnod y darperir ar ei gyfer yn erthygl 4 o Orchymyn 2016(**3**);

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ŵyl Banc nac yn ddydd gŵyl gyhoeddus arall yng Nghymru;

mae "dogfen" ("*document*") yn cynnwys ffotograff, map neu blan;

ystyr "Gorchymyn 2016" ("*the 2016 Order*") yw Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016(**4**);

---

(**1**) Mewnosodwyd adran 62D gan adran 19 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015.

(**2**) 2000 p. 7. Diwygiwyd adran 15(1) gan adran 406(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (p. 21) a pharagraff 158 o Atodlen 17 i'r Ddeddf honno.

(**3**) Mae erthygl 4 yn darparu mai'r cyfnod sylwadau yw pum wythnos, ond caiff Gweinidogion Cymru estyn y cyfnod hwnnw drwy gyfarwyddyd mewn unrhyw achos penodol.

(**4**) O.S. 2016/ 55 (Cy. 25).

ystyr “hysbysiad derbyn” (“*notice of acceptance*”) yw hysbysiad o dan erthygl 6 o Orchymyn 2016 bod y cais wedi ei dderbyn;

ystyr “person penodedig” (“*appointed person*”) yw’r person a benodir yn unol â rheoliad 10 i arfer y swyddogaethau a bennir yn rheoliad 11;

mae “sylw” (“*representation*”) yn cynnwys tystiolaeth, esboniad, gwybodaeth a sylwadaethau; ac

mae “sylwadau ysgrifenedig” (“*written representations*”) yn cynnwys dogfennau ategol.

**Cyfathrebiadau electronig**

**3.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ac mewn perthynas â defnyddio cyfathrebiadau electronig at unrhyw ddiben o’r Rheoliadau hyn y gellir ei gyflawni yn electronig—

(a) mae’r ymadrodd “cyfeiriad” (“*address*”) yn cynnwys unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddibenion cyfathrebiadau o’r fath;

(b) mae cyfeiriadau at hysbysiadau, sylwadau neu ddogfennau eraill, neu at gopïau o ddogfennau o’r fath, yn cynnwys cyfeiriadau at y cyfryw ddogfennau neu gopïau ohonynt mewn ffurf electronig.

(2) Mae paragraffau (3) i (7) yn gymwys pan ddefnyddir cyfathrebiad electronig gan berson at y diben o gyflawni unrhyw ofyniad yn y Rheoliadau hyn i roi neu anfon unrhyw ddatganiad, hysbysiad neu ddogfen arall i neu at unrhyw berson arall (“y derbynnydd”).

(3) Ystyrir bod y gofyniad wedi ei gyflawni pan fo’r hysbysiad neu ddogfen arall a drawsyrrir ar ffurf cyfathrebiad electronig—

(a) yn un y gall y derbynnydd gael mynediad iddi;

(b) yn ddarllenadwy ym mhob modd perthnasol; ac

(c) yn ddigon parhaol i’w ddefnyddio neu i’w defnyddio i gyfeirio ato neu ati yn ddiweddarach.

(4) Ym mharagraff (3), ystyr “darllenadwy ym mhob modd perthnasol” (“*legible in all material respects*”) yw fod yr wybodaeth a gynhwysir yn yr hysbysiad neu ddogfen arall ar gael i’r derbynnydd i’r un graddau, o leiaf, ag y byddai pe bai’r wybodaeth wedi ei hanfon neu ei rhoi gan ddefnyddio dogfen brintiedig.

(5) Pan fo’r derbynnydd yn cael y cyfathrebiad electronig y tu allan i oriau busnes y derbynnydd, ystyrir ei fod wedi cael y cyfathrebiad electronig ar y diwrnod gwaith nesaf.

(6) Mae unrhyw ofyniad yn y Rheoliadau hyn y dylai unrhyw ddogfen fod mewn ysgrifen, wedi ei gyflawni pan fo’r ddogfen honno’n bodloni’r meini prawf ym mharagraff (3), a rhaid dehongli “ysgrifenedig” (“*written*”) ac ymadroddion cytras yn unol â hynny.

(7) Bodlonir unrhyw ofyniad yn y Rheoliadau hyn i anfon mwy nag un copi o ddatganiad neu ddogfen arall drwy anfon un copi yn unig o’r datganiad neu ddogfen arall o dan sylw mewn ffurf electronig.

**Caniatáu amser ychwanegol**

**4.** Caiff Gweinidogion Cymru, mewn unrhyw achos penodol, roi cyfarwyddydau sy’n estyn y terfynau amser a ragnodir gan y Rheoliadau hyn.